

## Freedom of Information Act 2000 (FOIA)

### Decision notice

**Date:** 18 November 2013

**Public Authority:** Welsh Language Commissioner  
**Address:** Market Chambers  
5-7 St. Mary Street  
Cardiff  
CF10 1AT

#### Decision (including any steps ordered)

---

1. The complainant requested a copy of the Wyn Mears Report into the translation profession in Wales. The Welsh Language Commissioner ('the WLC') refused the request on the basis of section 44(1)(a) of the FOIA. The Commissioner's decision is that the WLC has correctly relied on section 44(1)(a) of the FOIA to withhold the information. The Commissioner requires no steps to be taken.

#### Request and response

---

2. On 4 March 2013, the complainant wrote to the WLC and requested the following information:

*" A copy of the Wyn Mears Report into the translation profession in Wales."*

3. The WLC responded on 8 March 2013. It stated that the report was exempt by virtue of section 44(1)(a) of the FOIA.

4. Following an internal review the WLC wrote to the complainant on 15 March 2013. It stated that:

*"The Commissioner is unable to disclose the information to you, for the reasons set out in my previous correspondence namely Section 22 of the Welsh Language (Wales) Measure 2011 and Section 44 of the Freedom of Information Act 2000."*

## Scope of the case

---

5. The complainant contacted the Commissioner on 20 March 2013 to complain about the way his request for information had been handled.
6. He informed the Commissioner that the WLC has taken steps to change the role of Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru (the association of Welsh translators and interpreters) to that of regulator of the industry in Wales and that there were ongoing talks with the WLC regarding these changes. He was also concerned that the WLC's reason for refusing to release the report was invalid.
7. During the course of the Commissioner's investigation, the complainant further informed the Commissioner that the purpose of his request was his desire to know whether the Wyn Mears report addressed the statutory requirements usually involved in the regulation of an industry and also whether the report addressed an extensive report published on the regulation of translators in Europe in 2012.
8. The Commissioner would wish to highlight that it has long been established (with the exception of a small minority of requests), that the FOIA is both applicant and purpose blind, therefore a public authority cannot take into consideration either the identity of the requester or the purpose of the request.
9. The Commissioner would also wish to highlight that any disclosure made under the FOIA is considered to be in the public domain as opposed to a restricted disclosure to the applicant and/or the organisation with which he is associated.
10. The Commissioner's investigation into the WLC's reliance on section 44(1)(a) cannot therefore take into consideration either the complainant's links with Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru or the purpose of his request and must bear in mind that the disclosure of this information to the complainant would effectively be disclosure into the public domain.
11. The Commissioner considers the scope of his investigation to be to determine whether the WLC was correct to rely on section 44(1)(a) of the FOIA in relation to this information.

## Reasons for decision

---

### Section 44(1)(a) – prohibitions on disclosure

12. Section 44(1)(a) of FOIA states that information is exempt information if its disclosure (otherwise than under the FOIA) by the public authority holding it is prohibited by, or under any enactment.
13. Section 44 is an absolute exemption, therefore if the statutory bar applies, section 44(1)(a) of the Act will be engaged and there is no need to conduct a public interest test.
14. In this case, the statutory bar specified by the WLC is Section 22(1) of the Welsh Language (Wales) Measure 2011 ('the Measure') which prohibits the Commissioner from releasing information which has been received in the exercise of one or more of the Commissioner's functions and states:  
  
*"Information which has been obtained by the Commissioner in the exercise of any of the Commissioner's functions must not be disclosed unless the disclosure is authorised by subsection (2)."*
15. Section 22(2)(a) to (h) provides the list of exemptions to subsection 22(1). It states that the Commissioner may disclose the information –
  - (a) *"for the purpose of the exercise of any of the Commissioner's functions;*
  - (b) *for the purpose of proceedings for an offence of perjury alleged to have been committed in the course of a standards enforcement investigation;*
  - (c) *for the purposes of an inquiry with a view to the taking of proceeding mentioned in paragraph (b);*
  - (d) *for the purpose of issuing a certificate under section 107 (obstruction and contempt);*
  - (e) *if the information is to the effect that a person is likely to constitute a threat to the health and safety of one or more persons, and the disclosure is to a person to whom the Commissioner thinks it should be disclosed in the public interest;*
  - (f) *if the information is of the mind mentioned in subsection (3), and the disclosure is to the Information Commissioner;*

- (g) *if the disclosure is to a permitted person, and the Commissioner is satisfied that the public interest condition is met;*
  - (h) *if the information was obtained by the Commissioner more than 70 years before the date of disclosure, and the disclosure is to a person to whom the Commissioner thinks it should be disclosed in the public interest."*
16. The Commissioner notes that the list of exemptions does not include providing information under the FOIA, that is, into the public domain.
17. Section 44(1)(a) will therefore be engaged if it can be demonstrated that the report in question was produced/obtained for the purposes of the WLC exercising her functions.
18. The WLC has confirmed that Section 3, part 2 of the Measure states that the principle aim of the Commissioner in exercising her functions is to promote and facilitate the use of the Welsh language. Section 4 goes on to state that:
- (1) *The Commissioner may do anything that he or she thinks appropriate-*
    - (a) *to promote the use of the Welsh language,*
    - (b) *to facilitate the use of the Welsh language, or*
    - (c) *to work towards ensuring that the Welsh language is treated no less favourably than the English language.*
19. Section 4(2) of the Measure further states what such functions may include. The functions specific to this case are set out below:
- (a) *promoting the provision of opportunities to use the Welsh language;*
  - (b) *encouraging best practice in relation to the use of Welsh of persons who deal with, or provide services to, other persons;"*
20. The Commissioner also notes that section 4(2)(e) provides that its functions include:  
*"carrying out or commissioning others to carry out research."*
21. The Commissioner further notes that the WLC has also referred to Statutory Instrument 2012 Number 752 (W.102) *Welsh Wales Welsh Language Board (Transfer of Staff, Property, Rights and Liabilities) Order 2012*. Page 6 sets out the property, rights and liabilities of the Welsh Language Board transferred to the Welsh Ministers, namely:  
*"1(c) all records other than records relating exclusively to –*

*grant agreements entered into by the Board with the Association of Welsh Translators and Interpreters; and*

*the co-ordination and regulation of the provision of translation services."*

22. The WLC has explained that the Wyn Mears Report was information obtained by her in the exercise of one of her functions, namely supporting and developing the translation industry in accordance with the requirements of "*A Living Language: A Language for Living*" and the Statutory Instrument.
23. The Commissioner notes that paragraph 49 of "*A Living Language...*" the Welsh Language Strategy 2012-17 sets out the Welsh Government's aspiration for translation and interpretation and identified the need to ensure that robust accreditation and regulation structures are in place to provide assurances with regard to quality. The Strategy notes that the Welsh Government will ask the WLC to support and develop the translation industry.
24. The Commissioner has inspected the withheld information in this case and has considered whether it was obtained by the WLC as described in paragraphs 14 to 23 of this notice. He is satisfied that the Wyn Mears Report was commissioned (obtained) by the WLC in the exercise of one of her functions and that she is therefore prevented from disclosing this information under section 22(1) of the Welsh Language (Wales) Measure 2011. He is also satisfied that responding to an information request made under the FOIA is not one of the reasons for disclosure provided for under sub-sections 22(2)(a) to (h). He has therefore concluded that the WLC was correct to rely on section 44(1)(a) of the FOIA.

## Right of appeal

---

25. Either party has the right to appeal against this decision notice to the First-tier Tribunal (Information Rights). Information about the appeals process may be obtained from:

First-tier Tribunal (Information Rights)  
GRC & GRP Tribunals,  
PO Box 9300,  
LEICESTER,  
LE1 8DJ

Tel: 0300 1234504

Fax: 0116 249 4253

Email: [informationtribunal@hmcts.gsi.gov.uk](mailto:informationtribunal@hmcts.gsi.gov.uk)

Website: [www.justice.gov.uk/guidance/courts-and-tribunals/tribunals/information-rights/index.htm](http://www.justice.gov.uk/guidance/courts-and-tribunals/tribunals/information-rights/index.htm)

26. If you wish to appeal against a decision notice, you can obtain information on how to appeal along with the relevant forms from the Information Tribunal website.
27. Any Notice of Appeal should be served on the Tribunal within 28 (calendar) days of the date on which this decision notice is sent.

**Signed .....**

**Anne Jones**  
**Assistant Commissioner**  
**Information Commissioner's Office**  
**Wycliffe House**  
**Water Lane**  
**Wilmslow**  
**Cheshire**  
**SK9 5AF**

## **Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ('y Ddeddf')**

### **Hysbysiad penderfynu**

**Dyddiad:** 18 Tachwedd 2013

**Cyfeiriad yr Awdurdod Cyhoeddus:** **Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd  
CF10 1AT**

#### **Y penderfyniad (gan gynnwys unrhyw gamau y gorchmynnir eu cymryd)**

---

1. Gofynnodd yr achwynydd am gopi o Adroddiad Wyn Mears ar y proffesiwn cyfieithu yng Nghymru. Gwrthododd Comisiynydd y Gymraeg y cais ar sail adran 44(1)(a) o'r Ddeddf. Penderfyniad y Comisiynydd Gwybodaeth yw bod Comisiynydd y Gymraeg wedi dibynnu mewn modd cywir ar adran 44(1)(a) o'r Ddeddf i gadw'r wybodaeth yn ôl. Nid yw'r Comisiynydd Gwybodaeth yn gofyn i unrhyw gamau gael eu cymryd.

#### **Y cais a'r ymateb**

---

2. Ar 4 Mawrth 2013, ysgrifennodd yr achwynydd at Gomisiynydd y Gymraeg gan ofyn am yr wybodaeth a ganlyn:  
*"i gael gweld adroddiad Wyn Mears [i'r proffesiwn cyfieithu yng Nghymru]."*
3. Atebodd Comisiynydd y Gymraeg ar 8 Mawrth 2013, gan ddweud bod yr adroddiad yn esempt yn rhinwedd adran 44(1)(a) o'r Ddeddf.
4. Yn sgil adolygiad mewnol ysgrifennodd Comisiynydd y Gymraeg at yr achwynydd ar 15 Mawrth 2013, gan nodi:  
*"Nid yw'r Comisiynydd yn gallu datgelu'r wybodaeth hon i chi, am y rhesymau y nodwyd yn fy ngohebiaeth flaenorol sef Adran 22 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac Adran 44 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000."*

## Rhychwant yr achos

---

5. Cysylltodd yr achwynydd â'r Comisiynydd Gwybodaeth ar 20 Mawrth 2013 i gwyno am y modd yr ymdriniwyd â'i gais am wybodaeth.
6. Dywedodd wrth y Comisiynydd Gwybodaeth fod Comisiynydd y Gymraeg wedi cymryd camau i newid rôl Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru i fod yn rheoleiddiwr i'r diwydiant yng Nghymru a bod trafodaethau'n parhau gyda Chomisiynydd y Gymraeg ynglŷn â'r newidiadau hyn. Roedd yn pryderu hefyd nad oedd rheswm Comisiynydd y Gymraeg dros wrthod rhyddhau'r adroddiad yn ddilys.
7. Yn ystod ymchwiliad y Comisiynydd Gwybodaeth, dywedodd yr achwynydd wrth y Comisiynydd Gwybodaeth hefyd mai diben ei gais oedd cael gwybod a oedd adroddiad Wyn Mears yn rhoi sylw i'r gofynion statudol sydd fel arfer yn rhan o reoleiddio diwydiant a hefyd a oedd yr adroddiad yn rhoi sylw i adroddiad helaeth a gyhoeddwyd ar reoleiddio cyfieithwyr yn Ewrop yn 2012.
8. Hoffai'r Comisiynydd Gwybodaeth danlinellu bod yr arfer wedi'i sefydlu ers tro byd (ac eithrio mewn lleiafrif bach o geisiadau) fod y Ddeddf yn ddall i'r ymgeisydd ac i'r diben, ac felly na chaiff awdurdod cyhoeddus gymryd i ystyriaeth pwy sy'n gwneud y cais na diben y cais.
9. Hoffai'r Comisiynydd Gwybodaeth danlinellu hefyd y bernir bod unrhyw ddatgeliad a wneir o dan y Ddeddf yn ddatgeliad i'r bau gyhoeddus o'i gyferbynnu â datgeliad cyfyngedig i'r ceisydd a/neu'r sefydliad y mae'r ceisydd yn gysylltiedig ag ef.
10. Gan hynny, nid yw ymchwiliad y Comisiynydd Gwybodaeth i ddibyniaeth Comisiynydd y Gymraeg ar adran 44(1)(a) gymryd i ystyriaeth gysylltiadau'r achwynydd â Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru na diben ei gais, a rhaid i'r Comisiynydd Gwybodaeth gadw mewn cof y byddai datgelu'r wybodaeth hon i'r achwynydd i bob pwrpas yn ddatgeliad i'r bau gyhoeddus.
11. Rhychwant yr ymchwiliad hwn ym marn y Comisiynydd Gwybodaeth yw penderfynu a oedd Comisiynydd y Gymraeg yn gywir wrth ddibynnu ar adran 44(1)(a) o'r Ddeddf mewn perthynas â'r wybodaeth hon.



## Y rhesymau dros y penderfyniad

---

### Adran 44(1)(a) - gwahardd datgelu

12. Mae adran 44(1)(a) o'r Ddeddf yn dweud bod gwybodaeth yn wybodaeth esempt os yw'r awdurdod cyhoeddus y mae'r wybodaeth ganddo wedi'i wahardd rhag ei datgelu (heblaw o dan y Ddeddf) gan unrhyw ddeddfiad neu o dan unrhyw ddeddfiad.
13. Esemptiad absoliwt yw adran 44, ac felly os yw'r gwaharddiad statudol yn gymwys, bydd adran 44(1)(a) o'r Ddeddf yn berthnasol a does dim angen cynnal prawf buddiant cyhoeddus.
14. Yn yr achos hwn, y gwaharddiad statudol a enwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yw adran 22(1) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur') sy'n gwahardd Comisiynydd y Gymraeg rhag rhyddhau gwybodaeth a gafwyd wrth i un neu ragor o'i swyddogaethau gael eu harfer, gan ddweud:  
  
*"Rhaid peidio â datgelu gwybodaeth y mae'r Comisiynydd wedi ei chael wrth arfer unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Comisiynydd onid awdurdodir y datgeliad gan is-adran (2)."*
15. Mae adran 22(2)(a) i (h) yn rhoi'r rhestr o esemptiadau rhag is-adran 22(1). Mae'n dweud y caniateir i Gomisiynydd y Gymraeg ddatgelu gwybodaeth-
  - (a) *"at ddibenion arfer unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Comisiynydd;*
  - (b) *at ddibenion achos am dramgwydd o dyngu anudon yr honnir i'r tramgwydd gael ei gyflawni yn ystod ymchwiliad i orfodi safonau;*
  - (c) *at ddibenion ymholiad gyda golwg ar gychwyn achos fel a grybwyllir ym mharagraff (b);*
  - (d) *at ddibenion dyroddi tystysgrif o dan adran 107 (rhwystro a dirmygu);*
  - (e) *os yw'r wybodaeth i'r perwyl bod person yn debygol o fod yn fygythiad i iechyd neu ddiogelwch un neu ragor o bersonau a bod y datgeliad yn ddatgeliad i berson sydd ym marn y Comisiynydd yn berson y dylid datgelu'r wybodaeth iddo er budd y cyhoedd;*
  - (f) *os gwybodaeth o'r math a grybwyllir yn is-adran (3) yw'r wybodaeth, ac os gwneir y datgeliad i'r Comisiynydd Gwybodaeth;*

- (g) *os gwneir y datgeliad i berson a ganiatawyd, a bod y Comisiynydd yn fodlon bod amod budd y cyhoedd wedi ei fodloni;*
- (h) *os cafwyd yr wybodaeth gan y Comisiynydd dros 70 o flynyddoedd cyn dyddiad y datgelu, ac os datgeliad ydyw i berson sydd ym marn y Comisiynydd yn berson y dylid datgelu'r wybodaeth iddo er budd y cyhoedd."*
16. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn nodi nad yw'r rhestr o esemptiadau'n cynnwys darparu gwybodaeth o dan y Ddeddf, hynny yw, i'r bau gyhoeddus.
17. Gan hynny, fe fydd adran 44(1)(a) yn berthnasol os gelir dangos bod yr adroddiad o dan sylw wedi'i gynhyrchu neu wedi'i gael er mwyn i Gomisiynydd y Gymraeg arfer ei swyddogaethau.
18. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cadarnhau bod adran 3, rhan 2 o'r Mesur yn dweud mai prif nod Comisiynydd y Gymraeg wrth arfer ei swyddogaethau yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Mae adran 4 yn mynd ymlaen i nodi hyn:
- (1) *Caiff y Comisiynydd wneud unrhyw beth sy'n briodol yn ei dyb ef—*
- (a) *er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg,*
- (b) *er mwyn hwyluso defnyddio'r Gymraeg, neu*
- (c) *er mwyn gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.*
19. Mae adran 4(2) o'r Mesur yn nodi hefyd yr hyn y gall y swyddogaethau hyn ei gynnwys. Mae'r swyddogaethau sy'n benodol i'r achos hwn wedi'u nodi isod:
- (a) *hybu darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg;*
- (b) *annog arferion gorau o ran defnyddio'r Gymraeg gan bersonau sy'n delio â phersonau eraill, neu sy'n darparu gwasanaethau i bersonau eraill;"*
20. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn nodi hefyd fod adran 4(2)(e) yn darparu bod swyddogaethau Comisiynydd y Gymraeg yn cynnwys:
- "gwneud gwaith ymchwil neu gomisiynu eraill i'w wneud."*
21. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn nodi hefyd fod Comisiynydd y Gymraeg wedi cyfeirio hefyd at Offeryn Statudol 2012 Rhif 752 (Cy.102) *Y Gymraeg Cymru Gorchymyn Bwrdd yr Iaith Gymraeg (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2012*. Mae tudalen 6 yn nodi eiddo, hawliau a rhwymedigaethau Bwrdd yr Iaith Gymraeg a drosglwyddwyd i Weinidogion Cymru, sef:

*"1(c) pob cofnod ac eithrio cofnodion sy'n ymwneud yn unig â—*

*cytundebau grant a gytunwyd rhwng y Bwrdd a Chymdeithas  
Cyfieithwyr Cymru; a*

*cydlynu a rheoleiddio'r ddarpariaeth o wasanaethau cyfieithu."*

22. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi esbonio bod Adroddiad Wyn Mears yn wybodaeth a gafwyd ganddi wrth arfer un o'i swyddogaethau, sef cefnogi a datblygu'r diwydiant cyfieithu yn unol â gofynion "*Iaith Fyw: Iaith Byw*" a'r Offeryn Statudol.
23. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn nodi bod paragraff 49 o "*Iaith Fyw ...*" sef Strategaeth y Gymraeg 2012-17 yn nodi dyhead Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfieithu a chyfieithu ar y pryd ac yn nodi bod yn rhaid gwneud yn siŵr fod yna strwythurau achredu a rheoleiddio cadarn yn eu lle i sicrhau ansawdd. Nodir yn y Strategaeth y bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i Gomisiynydd y Gymraeg gefnogi a datblygu'r diwydiant cyfieithu.
24. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi edrych ar yr wybodaeth a gadwyd yn ôl yn yr achos hwn ac wedi ystyried a gafodd ei sicrhau gan Gomisiynydd y Gymraeg yn unol â'r disgrifiad ym mharagraffau 14 i 23 o'r hysbysiad hwn. Mae wedi'i fodloni bod Adroddiad Wyn Mears wedi'i gomisiynu (wedi'i gael) gan Gomisiynydd y Gymraeg wrth arfer un o'i swyddogaethau a'i bod hi felly wedi'i hatal rhag datgelu'r wybodaeth o dan adran 22(1) o'r Mesur. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi'i fodloni hefyd nad yw ymateb i gais am wybodaeth yn un o'r rhesymau dros ddatgelu y darperir ar eu cyfer o dan is-adrannau 22(2)(a) i (h). Mae wedi dod i'r casgliad felly fod Comisiynydd y Gymraeg yn gywir wrth iddi ddibynnu ar adran 44(1)(a) o'r Ddeddf.

## Hawl i apelio

---

25. Mae gan y naill barti a'r llall hawl i apelio yn erbyn yr hysbysiad penderfynu hwn i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf (Hawliau Gwybodaeth). Mae gwybodaeth am y broses apelio ar gael oddi wrth:

First-tier Tribunal (Information Rights)  
GRC & GRP Tribunals,  
PO Box 9300,  
LEICESTER,  
LE1 8DJ

Ffôn: 0300 1234504

Ffacs: 0116 249 4253

E-bost: [informationtribunal@hmcts.gsi.gov.uk](mailto:informationtribunal@hmcts.gsi.gov.uk)

Gwefan: [www.justice.gov.uk/guidance/courts-and-tribunals/tribunals/information-rights/index.htm](http://www.justice.gov.uk/guidance/courts-and-tribunals/tribunals/information-rights/index.htm)

26. Os hoffech apelio yn erbyn hysbysiad penderfynu, gallwch gael gwybodaeth am sut i apelio ynghyd â'r ffurflenni perthnasol ar wefan y Tribiwnlys Gwybodaeth.
27. Dylai unrhyw hysbysiad apelio gael ei gyflwyno i'r Tribiwnlys o fewn 28 diwrnod (calendr) ar ôl dyddiad anfon yr hysbysiad penderfynu hwn.

**Llofnod .....**

**Anne Jones**  
**Comisiynydd Cynorthwyol**  
**Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**  
**Wycliffe House**  
**Water Lane**  
**Wilmslow**  
**Cheshire**  
**SK9 5AF**